# Glas

# Glas

# Glas

# Glas

Bwletin misol
Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 191
Ionawr 2024

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Cynffon Sidan . Y Drenewydd
10 Rhagfyr 2023
Llun David Lister
*Bombycilla garrulus*


Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Rhif Elusen Cymdeithas Edward Llwyd 1126027
Cymuned Llén natur Cymdeithas Edward Llwyd

## Tywydd gaeafol 1469, Llangollen

**Dyma gofnod o'r tywydd gaeafol a gafwyd dros 12 niwrnod gŵyl y Nadolig yn ardal Llangollen, yn 1469 neu 1486, pan gafwyd od (eira), rhew, cenllysg, glaw a heulwen. Mae'r cofnod yn llaw Gutun Owain, bardd o'r gogledd-ddwyrain a chanddo gysylltiadau cryf ag Abaty Glyn-y-groes, ger Llangollen. Am fwy o wybodaeth.**



| | | |
|---|---|---|
| duw nodolic hin dec. | 1 | Dydd Nadolig, tywydd braf. |
| gwyl ystyffan od ychydig. | 2 | Gŵyl Ysteffan, ychydig o eira. |
| gwyl Ieuann od byrnhawn. | 3 | Gŵyl Ieuan, eira yn y prynhawn. |
| gwyl y meibion od yn vynych. | 4 | Gŵyl y Meibion, llawer o eira. |
| gwyl domas hin dec, od y nos honno. | 5 | Gŵyl Domas, tywydd braf, eira'r noson honno. |
| duw sadwrn haul dec. | 6 | Dydd Sadwrn, haul braf. |
| duw sul glaw a chenllysc aml. | 7 | Dydd Sul, glaw a llawer o genllysg. |
| duw kalan glaw mawr hyd haner a ffeth haul. | 8 | Dydd Calan, glaw mawr hyd canol dydd a pheth haul. |
| duw mawrth hin dec a haul. | 9 | Dydd Mawrth, tywydd braf a haul. |
| duw merchyr, hin sych dec a haul. | 10 | Dydd Mercher, tywydd sych braf a haul. |
| duw iav haul a hinda sych ond rrew. | 11 | Dydd Iau, haul a hindda sych ond rhew. |
| duw gwener haul a hin dec. | 12 | Dydd Gwener, haul a thywydd braf. |
| Duw ystwyll. | ☆ | Dydd Ystwyll. |


## Derbyn Glas, bob mis

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Ffosiliau



Carreg Portland yn llawn ffosiliau [gastropodau], wal y Tube yn Green Park Llundain, Ionawr 16.

Ffurfiant daearegol calchfaen yw carreg Portland (a alwyd yn ffurfiol yn Ffurfiant Cerrig Portland) sy'n dyddio o Oes Tithonaidd y Jwrasig Diweddar a gloddir ar Ynys Portland yn Dorset, Lloegr. Mae'r chwareli'n cael eu torri mewn gwelyau o galchfaen llwyd-gwyn wedi'u gwahanu gan welyau ceirt *(chert)*. Fe'i defnyddiwyd yn helaeth fel carreg adeiladu ledled Ynysoedd Prydain, yn arbennig mewn adeiladau cyhoeddus mawr yn Llundain fel Eglwys Gadeiriol St Paul a Phalas Buckingham. Mae carreg Portland hefyd yn cael ei allforio i lawer o wledydd, yn cael ei ddefnyddio er enghraifft ym mhencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Ninas Efrog Newydd.

Bathwyd y term, *"Portland cement"* gan Joseph Aspdin a roddodd batent i rwymwr hydrolig ym 1824 a grëwyd trwy losgi cymysgedd o galchfaen a chlai, yn debyg i'r sment Rhufeinig a oedd yn bodoli eisoes. Gwnaeth hyn i gyflwyno deunydd yr oedd yn gobeithio ei fod yn edrych fel carreg adeiladu enwog Portland.

**Gwybodaeth o Wicipedia wedi ei gyfieithu**

## Atgofion o Feddgelert

**Ganed Alfred 'Fred' Bestall ar 14eg Rhagfyr 1892. Fe'i cofir fel awdur a darlunydd straeon Rupert Bear yn y Daily Express , o 1935 i 1965. Ysbrydolwyd y rhan fwyaf o'r tirweddau a ddefnyddiodd Bestall yn ei ddarluniau gan wyliau ei blentyndod yn Eryri, ardal y bu'n ymweld â hi eto'n gyson fel oedolyn, gan ymgartrefu mewn bwthyn ar Fynydd Sygun, Beddgelert ym 1956.** (Cyfieithiad Google cwbl difai)




Byddai Santa Clôs yn cofio rhoi llyfr Rupert i mi yn fy hosan bob Dolig. Ddiwedd y pumpdegau! **Sian Rees**

Cofiaf edrych ar y lluniau tra bod fy mam yn darllen y stori, ac wedyn medru darllen capsiynau'r lluniau ac yn y pendraw medru darllen y storïau.
**Jackie Wilmington**

Yr union beth i mi! Cofiaf ymgartrefu ar y soffa ar bwys Mam i wrando ar y stori - credaf fod fy Mam yn ei mwynhau hefyd. Wastad yn fodlon darllen Rupert!!
**Janet Keefe**

Fy nghof o Rupert oedd fy nhad yn darllen y stori i mi yn y Daily Express (dau lun bach ac un capsiwn hir dwi'n gofio). Ar y pryd roedd fy nhad yn smociwr (fel pawb o'i genhedlaeth) a finna'n anadlu mwg ei smocs *Senior Service* yn gyson ar ei lin gyda'r nos tra'n gwrando'r stori (a ddim yn drwg-lecio'r mwg!). **DB**



Dyma Alfred Bestall yn sefyll tu allan i Westy Plas Tan y Graig ym Meddgelert efo Paul McCartney a'i deulu. Dwi'n amau fod fy chwaer yn nghyfraith yn dal i gael un bob blwyddyn a hithau'n 59 oed . Dyma



Penlan, ei fwthyn ym Meddgelert, heddiw. Credaf mai yn 1956 y prynodd Alfred Bestall y bwthyn. Fe adawodd Penlan i'w *"God daughter"* ac mae bellach yn dŷ haf. Sgen i ddim syniad beth oedd hanes y bwthyn cyn Bestall ond mi driai ffeindio allan. **Del d'Aubrey**






## Lleuad Ionawr

Gyda diolchiadau i Harri Williams o Lanfairpwllgwyngyll am ein atgoffa ni am enwau llefydd a llefydd arbennig lloeren y Ddaear.
**Golygydd**

Mae gen i App ar y ffôn/tablet SkyView Lite. Jyst trowch y ffon i fyny a wneith ddeud wrthach be iddi'r planedau, ser a'r cytser. Da wir ydi o! **Edwina Fletcher**

Bum innau yn edrych ar y sêr a'r lleuad gyda dwy wyres a hwythau yn dotio. Medru eu gweld yn glir o'n cartref tu allan i Rostryfan mewn lle tywyll. **Olwen Evans**



## Cofnod cyfoethog

### Dau beth arbennig am hwn



Morwennol Cyffredin [pigddu?] yn plymio a pysgota heddiw [11 Rhag 2023] - Moel y Don, Sir Fôn. Gaeafu yma [?] ac wedi dal hyrddyn! **Nia Evans**

#### Y Cwestiwn

**Mae'r forwennol fudol hon yn hwyr iawn. Ydi hi'n gaeafu yma fel mae Nia wedi awgrymu? Neu efallai mudwr o'r gogledd sydd wedi cael ei chwythu yma gan wyntoedd yr hydref? Ynteu ai jest 'straglar' ydi hi?**

#### Yr anghytuno

Ydych chi bygotwyr môr yn hapus mai hyrddyn *(mullet)* ydi hwn?

- Cywir **Gwydion ap Gwyn**
- *Its a salmonid... it's got a visible adipose fin and there's still a lot of small sewin in the Straits.* **Keith Williams**

Dwi'n tueddu i feddwl mae sewin bach di o hefyd. **Rhun Edwards**

- Mae gennau brâs yr hyrddyn i weld yn y llun hwn. Mingrwn ddywedwn i, hyrddyn yn tueddu i gael ei ddefnyddio tua'r De. Llun arbennig. **Greta Hughes**

#### Yr enwau Cymraeg

Mae yna o leiaf ddau enw ar lafar heddiw

- hyrddyn fydda ni yn defnyddio ym Mhorthmadog. **Dewi Lewis**
- mingrwn, Llanbedrog. Defnyddio'r ddau rhag dryswch pan oeddwn yn cyfieithu gohebiaeth pysgodfeydd. Tebyg i benog / ysgaden. **GH**

#### Ymchwil

Mae'r ddau enw mae'n debyg yn cyfeirio at y safn llydan: **mingrwn**


Cyfeirio at y gwefus mawr: **hyrddyn**

Mae "hyrddyn" yn cyfeirio at 'ben swmpus' yr hwrdd

## Glas y Dorlan







Lluniau Gareth Wynne-Williams

17 Ionawr 2024

Fel yr agryma'r enw, mae'r rhan fwyaf o'r aderyn yn las. Mae'n aderyn gweddol fach, gyda hyd o tua 19 cm (7.5 modfedd). Mae'n byw ar bysgod bach ac anifeiliad bychan eraill sy'n cael eu dal trwy blymio i mewn i'r dŵr a dal y pysgod yn ei big. Fel rheol mae'n eistedd ar frigyn neu rywle cyfleus arall uwchben y dŵr i ddisgwyl am gyfle i blymio. Bydd wedyn yn dychwelyd gyda'r pysgodyn i'r brigyn, ei daro amryw o weithiau yn erbyn y brigyn neu rywbeth caled arall i'w ladd os yw'n bysgodyn gweddol fawr, ac yna ei lyncu. Mae'n hoffi afonydd sy'n llifo'n weddol araf neu byllau, ond mae'n rhaid i'r dŵr fod yn weddol glir iddo fedru gweld ei brae. **Wicipedia Cymraeg**


# Cofnodion o Fwyd y Crëyr




Crëyr glas, ceg traeth Llanbedrog bore 'ma. **Greta Hughes**
**Bwyd:** Lleden fwd? **Golygydd**




Crëyr glas yn dal sliwen yn y glaw yn Aberogwen heddiw, 31 Mawrth, 2023. Fe ddaliodd 4 tra roeddwn yn ei wylio (2 awr). Hwn oedd y tro pan oedd agosaf at y camera. **Greta Hughes**



Crëyr glas yn cael brithyll bach i swper, (Nant y Pandy, Llangefni ) 31/12/21 y goleu ddim ar ei ora' yn anffodus. **Derec Owen**



Crëyr glas hefo slywan ar lan Afon Teigl bore heddiw, 2/9/2020 **Gwilym Arthur Roberts**



Crëyr glas ifanc wedi dal lwgwn, Cemlyn, heno, 28ain Awst, 2023. Dim yn siwr mai lwgwn yw'r cyfieithiad cywir o ragworm. **Greta Hughes**




Crëyr glas, Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Awst 8, 2023. **Eifion Griffiths**
Llysywen (neu sliwen) mae'n debyg **Golygydd**



Crëyr glas wedi dal lleden dywod, traeth Llanbedrog, bore heddiw, 1af Gorffennaf, 2022. **Greta Hughes**



Crëyr glas ifanc newydd ddal cranc, Cemaes, heno, 28ain Awst, 2023 **Greta Hughes**



Crëyr glas, harbwr Pwllheli, bore heddiw, 30ain Gorffennaf, 2023. Mae'r cranc yn brysur fynd i lawr y lôn goch. **Greta Hughes**



Crëyr Glas - Madfall y Dŵr Pwll pysgod aur yn yr ardd gefn, Braichmelyn, Bethesda, Gwynedd. Oddeutu 9 y bore, Sul, 21/02/21 **Gwynfor Dafydd**



Crëyr glas, Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Mehefin 15, 2021 **Eifion Griffiths**
Llysywen **Golygydd**



Crëyr Glas ar ben yr ynys wrth yr harbwr yn bwyta madfall, Pwllheli 15.4.23 **Bethan Vaughan Davies**

# Bwyd a phrae

**BWYD A PHRAE yr adar – eich tysiolaeth chi.**
**Dyma olwg fanwl are eich cofnodion o fwyd y crëyr**
**Mae'r lluniau ar dudalen 7 gyda manylion ychwanegol gan y golygydd.**



Crëyr glas yn dal sliwen yn y glaw yn Aberogwen heddiw, 31 Mawrth, 2023. Fe ddaliodd 4 tra roeddwn yn ei wylio (2 awr). Hwn oedd y tro pan oedd agosaf at y camera. **Greta Hughes**

*Yn hir goes o lonyddwch astud,*
*syllai i lygaid y lli.*
*Cyn anelu ei phig fforch felen*
*at brae wnaiff ei chynnal hi.*
***Elwyn Jones***

Crëyr glas yn cael brithyll bach i swper,( Nant y Pandy Llangefni ) 31/12/21 y goleu ddim ar ei ora' yn anffodus. **Derec Owen**

Mae gan y crëyr glas nodweddion arbennig ar eu gyddfau sy'n troi at bowdr fel nad yw'r llysnafedd yn glynu. **Neil Davey**

Crëyr glas ifanc wedi dal lwgwn, Cemlyn, heno, 28ain Awst, 2023. Dim yn siwr mai lwgwn yw'r cyfieithiad cywir o ragworm. **Greta Hughes**

Lwgwm [lygwnsen? DB], mwydyn y traeth *(Lugworm)* sydd yma yn hytrach na Siani garpiog,abwyd melys *(Ragworm)* **Dewi Lewis**

Crëyr glas wedi dal lleden dywod, traeth Llanbedrog, bore heddiw, 1af Gorffennaf, 2022. **Greta Hughes**

'Lleden fwd' yng Nghaernarfon. Dwi'n cofio yn nechrau'r 70au ar y Cei Llechi yn y dref yn holi clwstwr o blant tua deuddeg oed. 'Be dach chi'n gael hogia?' gofynnais. 'Lledi mwd ia' oedd yr ateb ffwr'bwt! Tybed fasa plant y dre yn dweud hynny heddiw?

Crëyr glas, harbwr Pwllheli, bore heddiw, 30ain Gorffennaf, 2023. Mae'r cranc yn brysur fynd i lawr y lon goch. **Greta Hughes**

Crëyr Glas 1, Madfall y Dŵr 0 - Pwll pysgod aur yn yr ardd gefn, Braichmelyn, Bethesda, Gwynedd. Oddeutu 9 y bore, Sul, 21/02/21 **Gwynfor Dafydd**

Crëyr Glas ar ben yr ynys wrth yr harbwr yn bwyta madfall, Pwllheli 15.4.23 **Bethan Vaughan Davies**

## Bwyd y creyr yng ngogledd Cymru ers 2010

Does dim digon o ddata wrth gwrs i dynnu casgliadau pendant ond mae yna eginyn o batrwm rydym yn gobeithio y bydd yn eich sbarduno i dynnu mwy o luniau gyda dyddiad a lle iddynt.


| PRAE | LLE | MIS/blwyddyn | TYMOR | NIFER | PWY? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yslywen** | Aberogwen **x4** | Mawrth 23 | G | **7** | GH |
| **Yslywen** | Afon Teigl | Medi 20 | Hydref | | GAR |
| **Yslywen** | Rhuddlan **X2** | Mehefin 21 | Haf | | EG |
| **Madfall ddŵr** | Pwllheli | Ebrill 23 | G | **3** | BVJ |
| **Madfall ddŵr** | Cricieth | Fl'oedd yn ôl | ? | | IW |
| **Madfall ddŵr** | Bethesda | Chwefror 21 | G | | GD |
| **Cranc** | Pwllheli | Gorffennaf 23 | Haf | **2** | GH |
| **Cranc** | Cemaes | Awst 23 | Haf | | GH |
| **Lleden fwd** neu **leden ifanc** | Llanbedrog | Gorffennaf 22 | Haf | **2** | GH |
| **Lleden fwd** neu **leden ifanc** | Rhuddlan | Awst 23 | Haf | | EG |
| **Lwgwn** | Cemlyn | Awst 23 | Haf | **1** | GH |
| **Brithyll** | Llangefni | Rhagfyr 21 | G | **1** | DO |

Dyma mae'r data yn ei awgrymu i ni:

- Mae crëyrod yn pysgota mewn dŵr hallt y mor a dwr croew llonnydd byrlymus, efallai ar hyd yr arfodir yn yr haf ac yn fewndirol yn yr hydref a'r gaeaf (ydy'ch profiad cyffredinol chi'n cydfynd â hynny?)
- Y prif fwyd yw yslywod o ddigon, gyda madfallod, crancod a lledod yn dod yn ail a thrydydd. Cafyd un enghraifft yr un o lwgwnsen a brithyll.

**Tybed faint ohonoch chi sydd wedi clywed stori crëyr Jean de la Fontaine, le Héron? Mae'r stori mor adnabyddus yn y byd Ffrangeg yn son am grëyr paticlar iawn sy'n gorfod bodloni â malwen ar ôl anwybyddu nifer helaeth o brae a fyddai wedi gallu mynd i lawr ei "lôn goch", yr un fath â chranc Greta Hughes yn harbwr Pwllheli. Dyma hi yn Ffrangeg a chyfieithiad yn Saesneg. DK**

**Le Héron**
*Un jour, sur ses longs pieds, allait je ne sais où,*
*Le Héron au long bec emmanché d'un long cou.*
*Il côtoyait une rivière.*
*L'onde était transparente ainsi qu'aux plus beaux jours ;*
*Ma commère la carpe y faisait mille tours*
*Avec le brochet son compère.*
*Le Héron en eût fait aisément son profit :*
*Tous approchaient du bord, l'oiseau n'avait qu'à prendre ;*
*Mais il crut mieux faire d'attendre*
*Qu'il eût un peu plus d'appétit.*
*Il vivait de régime, et mangeait à ses heures.*
*Après quelques moments l'appétit vint : l'oiseau*
*S'approchant du bord vit sur l'eau*
*Des Tanches qui sortaient du fond de ces demeures.*
*Le mets ne lui plut pas ; il s'attendait à mieux*
*Et montrait un goût dédaigneux*
*Comme le rat du bon Horace.*
*Moi des Tanches ? dit-il, moi Héron que je fasse*
*Une si pauvre chère ? Et pour qui me prend-on ?*
*La Tanche rebutée il trouva du goujon.*
*Du goujon ! c'est bien là le dîner d'un Héron !*
*J'ouvrirais pour si peu le bec ! aux Dieux ne plaise !*
*Il l'ouvrit pour bien moins : tout alla de façon*
*Qu'il ne vit plus aucun poisson.*
*La faim le prit, il fut tout heureux et tout aise*
*De rencontrer un limaçon.*
*Ne soyons pas si difficiles :*
*Les plus accommodants ce sont les plus habiles :*
*On hasarde de perdre en voulant trop gagner,*
*Gardez-vous de rien dédaigner ;*
*Surtout quand vous avez à peu près votre compte.*
*Bien des gens y sont pris ; ce n'est pas aux Hérons*
*Que je parle ; écoutez, humains, un autre conte ;*
*Vous verrez que chez vous j'ai puisé ces leçons.*




*One day,—no matter when or where,—*
*A long-legg'd heron chanced to fare*
*By a certain river's brink,*
*With his long, sharp beak*
*Helved on his slender neck;*
*'Twas a fish-spear, you might think.*
*The water was clear and still,*
*The carp and the pike there at will*
*Pursued their silent fun,*
*Turning up, ever and anon,*
*A golden side to the sun.*
*With ease might the heron have made*
*Great profits in his fishing trade.*
*So near came the scaly fry,*
*They might be caught by the passer-by.*
*But he thought he better might*
*Wait for a better appetite—*
*For he lived by rule, and could not eat,*
*Except at his hours, the best of meat.*
*Anon his appetite return'd once more;*
*So, approaching again the shore,*
*He saw some tench taking their leaps,*
*Now and then, from their lowest deeps.*
*With as dainty a taste as Horace's rat,*
*He turn'd away from such food as that.*

*"What, tench for a heron! poh!*
*I scorn the thought, and let them go."*
*The tench refused, there came a gudgeon;*
*"For all that," said the bird, "I budge on.*
*I'll ne'er open my beak, if the gods please,*
*For such mean little fishes as these."*
*He did it for less;*
*For it came to pass,*
*That not another fish could he see;*
*And, at last, so hungry was he,*
*That he thought it of some avail*
*To find on the bank a single snail.*
*Such is the sure result*
*Of being too difficult.*
*Would you be strong and great,*
*Learn to accommodate.*
*Get what you can, and trust for the rest;*
*The whole is oft lost by seeking the best.*
*Above all things beware of disdain;*
*Where, at most, you have little to gain.*
*The people are many that make*
*Every day this sad mistake.*
*'Tis not for the herons I put this case,*
*Ye featherless people, of human race.*
*—List to another tale as true,*
*And you'll hear the lesson brought home to you.*

## Grym dihysbydd?



**Dyma un o anrhegion Dolig sydd wedi cael ei bedlera ar y we eleni.**

***Amaze your friends and make them scratch their heads with this clever toys. Every one will love it.*** 😎

Dyma’r teclyn ar waith agorwch y ddolen binc. Ydych chi’n barod i grafu eich pen?


**Dyma’r ffisegydd Dafydd Richard Hughes i gadw’n traed ar y ddaear!**

Mae’n ynddangos fod y dyfais yna yn torri deddfau ffiseg- nes fod rhywun yn sylwi fod yna fatris yn ei waelod i roi hwb i’r belen. **DRH**

Oo! Sbwylio fo!! Ond dyna fo - y caswir! OND o gynllunio’r teclyn yn iawn (pwysau/maint y belen, disgynfa, pellter y tafliad, i gyd yn cydweddu) mi lasa fo weithio HEB fatri? Mewn theori o leiaf. Sylwi eich bod chi’n son am ‘hwb’ - sy’n awgrymu bod yna le i wella ar y cynllun? Oes yna fathemategwyr allan yn fanna fasa’n fodlon mentro rhoi gwerth ar y tri mesuriad critigol yna i gael o i weithio heb fatri (ac os na wneith, o ba faint mae o’n brin - a pham!) . Dwi’m yn siwr os ydi fy maths lefel O o 1966 yn ddigon da bellach i fynd i’r afael!!

**BETH YN UNION MAE’R BATRI YN EI BWERU FELLY? DB**

Electro magnet [ar Wikipedia.org] sy’n rhoi hwb i’r belen **DRH**



Ah! Da iawn. Ond mae pwer disgyrchiant a pwer magnetig yn ddihysbydd yndydyn? Yn wahanol i fatri confensiynol? Mae’n dal yn rhyfeddol. Ond dwi dal i gynnig y GALLAI weithio efo disgyrchiant yn unig? **DB**

(X = uchder or base i’r bowlen). Pan mae’r bel ar fin disgyn drwy’r twll mae ganddi X o egni potensial. Felly Y magnet sydd yn rhoid boost iddi i godi yn uwch na lefal y bowlen. Ond i ddeud y gwir, oherwydd ffrithiant aer a ffrithiant rhwng y bel a’r cledrau, dydi’r bel ddim cweit yn cyrraedd lefal X. Elecro magnet ydi hwn, felly mae’n defnyddio pwer. **DRH**

Mae egni yn cael ei golli trwy wrthiant yr awyr, creu egni swn, a thrwy ffrithiant. Felly yn weddol sydyn byddai’r bel yn peidio symud heb fewnbwn egni.

**Iwan Williams**

Dafydd Richard Hughes mae’n rhaid ei wefru felly - ddim yn ddihysbydd? Mae nhw’n ei ddisgrifio dan y mantra ‘perpetual motion’. Dydi hynny ddim yn gywir felly (Disgrifiadau Masnach?). Tasa fo’n magnet syml mi fasa fo? **DB**

*Neodymium magnet* sydd yn cael ei ddefnyddio.

**Geraint Thomas**

## Wyt Ionawr yn oer!

Wyt Ionawr yn oer,
  A’th farrug yn wyn;
A pha beth a wnaethost
  I ddŵr y llyn?
Mae iâr fach yr hesg
  Yn cadw’n ei thŷ,
Heb le i fordwyo
  Na throchi ’i phlu.

Wyt Ionawr yn oer,
  A’th farrug yn wyn;
Ac nid oes uchedydd
  Na grug ar fryn;
O liaws y lawnt
  Ni welaf ond un,
O’r pridd wedi codi
  Fel pe drwy ’i hun.

Wyt Ionawr yn oer,
  A’th farrug yn wyn;
A sigli yr adar
  O frig yr ynn;
Ni cheir ar y coed
  Griafol fel bu—
Mae’r frongoch a’r fwyalch
  O dŷ i dŷ.

**Diolch i Anita Myfanwy** **Casgliad Matheson Maes a Môr**

## Teithiau Cymdeithas Edward llwyd

**Y wefan a’r tudalen Facebook - un o brif weithgareddau’r Gymdeithas yw’r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a’r Canolbarth.**

# Adar yn y gaeaf

Llun W Emrys Roberts ■ 13 Tachwedd 2023




Llun Nia Evans ■ 6 Rhagfyr 2023



Llun Eirlys Edwards-Behi ■ 7 Rhagfyr 2023



Llun Eifion Griffiths ■ 2 Rhagfyr 2023



Llun Eirlys Edwards-Behi ■ 2 Rhagfyr 2023




Llun Eirlys Edwards-Behi ■ 7 Rhagfyr 2023




Mae’r adar hyn yn hoff iawn o’r math hwn o ffrwythau cochion

**Beth ydyn nhw?**


Glas

①②③④⑤⑥⑦⑧⑨



Crëyr glas, ceg traeth Llanbedrog bore 'ma. **Greta Hughes**
**Bwyd:** Lleden fwd? **Golygydd**



Crëyr glas yn dal sliwen yn y glaw yn Aberogwen heddiw, 31 Mawrth, 2023. Fe ddaliodd 4 tra roeddwn yn ei wylio (2 awr). Hwn oedd y tro pan oedd agosaf at y camera. **Greta Hughes**



Crëyr glas yn cael brithyll bach i swper, (Nant y Pandy, Llangefni ) 31/12/21 y goleu ddim ar ei ora' yn anffodus. **Derec Owen**


Crëyr glas hefo slywan ar lan Afon Teigl bore heddiw, 2/9/2020
**Gwilym Arthur Roberts**







# Glas



harbwr Pwllheli, bore
ain Gorffennaf, 2023.
c yn brysur fynd i lawr y
**Greta Hughes**



Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

Llysywen
**Eifion Griffiths**
**Golygydd**

